COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI101

Amseru: Arferol

Teitl: Cyllid LLC ar gyfer Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ymgysylltu

Crynodeb Gweithredol:

Mae Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn cael ei chynnal rhwng 13-20 Hydref 2018. Derbyniodd swyddfa'r Comisiynydd gyllid o £5,000 gan LIC i fynd yn benodol tuag at weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn ystod yr wythnos hon. Er mwyn tanlinellu ymrwymiad y Comisiynydd i wrando ar lais pobl ifanc, bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu'n bennaf i gynorthwyo partneriaid o fewn y diwydiannau creadigol i weithio gyda phobl ifanc drwy gydol yr wythnos, er mwyn iddynt gael lleisio eu barn, i herio rhagdybiaethau a rhoi diwedd ar gasineb. Y nod yw i'r Comisiynydd gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â phobl ifanc ar draws y pedair sir er mwyn gwrando ar eu barn a'u profiad o droseddau casineb, a herio rhagdybiaethau mewn perthynas â rhai cymunedau a grwpiau o bobl. Manylir ar y gweithgareddau hyn isod:

1) "Mae gen i stori" – prosiect mewn cydweithrediad â Theatr Genedlaethol Cymru a 'Travelling Ahead' – fforwm ieuenctid rhanbarthol Sipsiwn, Roma a Theithwyr Gorllewin Cymru i greu ffilm fer ar y thema dan sylw;
2) Gweithdy Drama ymwybyddiaeth o droseddau casineb i blant oed cynradd;
3) Troseddau Casineb a myfyrwyr ag anableddau dysgu – codi ymwybyddiaeth gyda Phrifysgol Aberystwyth;
4) Casáu ialth: gweithdy yn Ysgol Uwchradd Crucywel i herio canfyddiadau mewn perthynas â hunaniaeth a grwpiau penodol o bobl mewn amgylchedd agored a chefnogol;
5) Cadetiaid Aberhonddu yn ymuno â thîm ieuenctid tref Aberhonddu am gêm gyfeillgar i hyrwyddo'r wythnos, ac yn benodol, themâu LGBT

Bydd gweddill yr arian yn mynd tuag at ddeunydd hyrwyddo HCAW i'w ddefnyddio ar draws DPP mewn ystod o weithgarwch a drefnir gan yr Heddlu drwy'r wythnos.

Argymhelliad:
Dyrannu cyllid LLC tuag at Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2018 ar gyfer y prosiectau uchod.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 17/1/2019